# Canllaw i Fyfyrwyr

# Manteisio ar Ddysgu Ar-lein


Wrth i ni symud at addysgu'n gyfan gwbl ar-lein, efallai y bydd angen i chi ddefnyddio mwy o offer ac adnoddau ar-lein nag o'r blaen. Hefyd, os nad oes gennych liniadur neu gyfrifiadur gartref, efallai y bydd angen i chi ddefnyddio dyfais symudol i fanteisio ar yr hyn yr ydych yn ei ddysgu. Dyma ganllaw cyflym ar sut i gyrchu'r prif offer y mae'n debygol y bydd arnoch ei angen.

## Defnyddio Moodle ar eich ffôn neu lechen




Defnyddiwch y llwybr byr Moodle ar ap **Hwb Y Drindod Dewi Sant**

neu



Lawrlwythwch **ap Moodle** o'ch siop apiau

neu




Ewch i **moodle.uwtsd.ac.uk** yn uniongyrchol

## Microsoft Teams

### Defnyddio Teams ar gyfer sesiynau ar-lein

Gall eich tiwtor gynnal sesiynau addysgu ar-lein a thiwtorialau gan ddefnyddio llwyfan megis **Microsoft Teams.**

Bydd eich tiwtor yn rhannu **dolen gyfarfod** sy'n edrych fel hyn:

Join Microsoft Teams Meeting

Cliciwch ar y ddolen pan ddaw amser y cyfarfod, gwnewch yn siŵr fod eich gwe-gamera a'r meicroffon yn gweithio, ac wedyn cliciwch ar **"ymuno nawr"** i fynd i mewn i'r ystafell.

### Defnyddio Teams ar gyfer rhannu adnoddau

Efallai y bydd eich tiwtor yn defnyddio **profiad llawn Microsoft Teams** i alluogi eich dosbarth i gyfathrebu â'i gilydd, rhannu adnoddau a chynnal cyfarfodydd dosbarth.

Gallwch gael mynediad at eich grŵp Teams mewn tair ffordd:

Ewch i **teams.microsoft.com** a mewngofnodi gyda'ch manylion mewngofnodi yn y Brifysgol.

Ar **teams.microsoft.com** byddwch yn gweld dolen lawrlwytho ar gyfer ap cyfrifiadur bwrdd gwaith ar waelod chwith y sgrin.

Lawrlwythwch **ap symudol Teams**

## Panopto

### Gwylio darlithoedd trwy ddefnyddio Panopto

Mae'n debygol y bydd gofyn i chi wylio darlithoedd fideo yn rhan o'ch dysgu ar-lein.

Bydd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio meddalwedd o'r enw **Panopto.**

Bydd eich tiwtor yn darparu'r dolenni y bydd arnoch eu hangen.

Efallai y gofynnir i chi fewngofnodi, dylech bob amser ddefnyddio eich manylion cofnodi Moodle

Cofiwch fod croeso i chi gysylltu â Hwb os cewch chi unrhyw broblemau – rydyn ni yma i helpu!